OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3232 (Cy.284) (C.132)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2007

*Gwnaed* - - - - *12 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 270(4) a (5)(c) o Ddeddf Tai 2004(**1**) ac a freiniwyd bellach(**2**) yng Ngweinidogion Cymru, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 13 Rhagfyr 2007

**2.** Mae darpariaethau canlynol Deddf Tai 2004 yn dod i rym ar 13 Rhagfyr 2007:

(a) adran 225, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym(**3**);

(b) adran 226;

(c) adran 265(1), i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 47 o Atodlen 15.

*Jocelyn Davies*
O dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

12 Tachwedd 2007

(**1**) 2004 p.34. Mae'r pwerau a roddwyd gan adran 270(4) a(5) yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* y diffiniad o'r "appropriate national authority" yn adran 261(1) o Ddeddf 2004.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 270(4) a (5) i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) I'r graddau y mae darpariaeth yn Neddf 2004 yn rhoi pwer i wneud gorchymyn neu reoliadau yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, daeth i rym ar ddyddiad pasio'r Ddeddf honno yn rhinwedd adran 270(2)(b) o'r Ddeddf.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y pumed Gorchymyn Cychwyn sy'n cael ei wneud o dan Ddeddf Tai 2004 yw'r Gorchymyn hwn. Mae'n dod ag adrannau 225 (*dyletswyddau awdurdodau tai lleol: anghenion llety sipsiwn a theithwyr*) a 226 (*canllawiau ynghylch adran 225*) o Ddeddf Tai 2004, a pharagraff 47 o Atodlen 15 (*strategaethau tai a datganiadau o dan adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003*) i'r Ddeddf Tai honno i rym yng Nghymru ar 13 Rhagfyr 2007.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf Addysg 2004 wedi'u dwyn i rym yng Nghymru drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif yr O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 1 a 3 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Adran 4 | 25 Tachwedd 2005 | 2005/3237 (Cy.242)(C.138) |
| Adrannau 5 i 8 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Adrannau 10 i 52 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Adran 54 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Adran 55 (yn rhannol) | 25 Tachwedd 2005 | 2005/3237 (Cy.242)(C.138) |
| Adran 55 (y gweddill) | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Adrannau 56 a 57 | 25 Tachwedd 2005 | 2005/3237 (Cy.242)(C.138) |
| Adrannau 58 i 78 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Adrannau 79 i 81 | 25 Tachwedd 2005 | 2005/3237 (Cy.242)(C.138) |
| Adrannau 82 i 147 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Adran 179 | 25 Tachwedd 2005 | 2005/3237 (Cy.242)(C.138) |
| Adran 191 | 14 Gorffennaf 2005 | 2005/1814 (Cy.144)(C.75) |
| Adrannau 192 i 194 | 25 Tachwedd 2005 | 2005/3237 (Cy.242)(C.138) |
| Adrannau 212 i 215 | 6 Ebrill 2007 | 2007/305 (Cy. 24)(C.12) |
| Adrannau 227 a 228 | 14 Gorffennaf 2005 | 2005/1814 (Cy.144)(C.75) |
| Adrannau 229 i 232 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Adrannau 235 a 236 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Adran 237 | 25 Tachwedd 2005 | 2005/3237 (Cy.242)(C.138) |
| Adrannau 238 i 243 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif yr O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 265(1) ac Atodlen 15 (yn rhannol) | 14 Gorffennaf 2005 | 2005/1814 (Cy.144)(C.75) |
| Adran 265(1) ac Atodlen 15 (yn rhannol) | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Adran 266 (yn rhannol) | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Atodlenni 1 i 7 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 (Cy.152)(C.54) |
| Atodlen 10 | 6 Ebrill 2007 | 2007/305 (Cy. 24)(C.12) |
| Atodlen 12 | 14 Gorffennaf 2005 | 2005/1814 (Cy.144)(C.75) |
| Atodlen 13 | 16 Mehefin 2006 | 2006/1535 Cy.152)(C.54) |